and since the scope of your desires proceed from your private interests, give me leave to take equal care of my loyallty and reputation; all which may be preserved by your mediation with the parliament or commander in chiefe, that this force, now before this castle may be withdrawn from this countrey. I shall then undertake that this castle shall be no further charge to you. And, to conclude with your bitter pill, I will not deny, but as the most savoury meate tastes bitter to a distempered pallate, so my faythfulness to his Majestie's service may seeme bitter to those that are reddy to fall from their allegiance, which if you and the others had not done, this countrey, and other parts of the kingdome, had not bin in this misserable condition they are now in; neyther had there bin any occasion of this kind of intercourse between you and your kindsman.

And the king's loyall subject,

WILLIAM SALESBURY.

Denbigh Castle, this 16th Maii, 1646."

The restraint and logic of all Salesbury's replies are as conspicuous as his loyalty. The siege developed in intensity and as Mytton himself moved on by way of Llanrwst to attack Caernarvon, the conduct of the siege was left in the hands of Colonel John Carter.

During one of the numerous sorties a young captain of the name of Edward Wynne was mortally wounded. He was a son of Edward Wynne of Ystrad Hall, situated a few miles away, and when he died the sorrowing father asked if he might have his son buried in the churchyard of Llanrhaeadr. Permission was granted conditionally. The dead officer's colleagues were allowed to bear the body to a small stream which crossed the Whitchurch road. Here they handed the dead officer to a party of Parliamentarians who fired a volley and then carried him with due decorum to his last resting place. In the churchyard there may still be read the epitaph:

"Here lyeth ye body of Capt: Edward Wynne, 4th Son of Edwd. Wynne. He dy'd in the defence of Denbigh Castle when besieged by Oliver Cromwell's army."

The wording was added after the Restoration and must not be taken to indicate that Cromwell was concerned in the siege. The dead youth was a grandson of Catherine of Berain who had as one of her four husbands Maurice Wynne of Gwydir.

The Goblin Tower still shows marks of cannon fire. The curious grassy mounds in the grounds of Howells School were probably thrown up by the garrison to mask the base of the tower from gun fire. "Cannonballs," writes J. Williams, "have frequently been dug up about the Castle, but they are mostly eight-pounders, and none, we believe, exceed 32 lb."

Early in June Caernarvon Castle surrendered, to be followed shortly afterwards by Beaumaris. Mytton used this news in an attempt to induce Salesbury to follow suit. In a letter on June 24th he again summoned the governor to surrender. Here is Salesbury's reply:

"IN NOMINE JESU.

Sir,—In answere to your letter on the 24th June last, it cannot bee (though soe closely besieged) that I should bee altogether ignorant of the affayers of this kingdom in general, much more in the particulars; contrary to what you suppose. What the Castle and town of Carnarvon, the Castle of Beaumarish, with the whole Island of Anglesea have done, doth noething concern me; that must lye upon there accompt who were therein entrusted by our king; now, for the houlding of this castle, I doe hold it, in its proper and due obedience to our king; and when I have use of reliefe (as I formerly wrote) I am confident my good God will assuredly send it mee, who hitherto hath mercifully protected me. As for the ruine of this innocent country, I am heartily sorry that soe noble a gentleman, soe generally beloved as yourselfe, of soe ancient, and soe worthy a stocke, should be made the prime actor therein, contrary to the lawes of God, and the fundamentall laws of this kingdom; but for further prevention of the losse of innocent Christian blood, of which I am very sensible, doe *you* withdraw your forces from before this castle and country; I shall give you good assurance, that this garrison shall neyther bee hurtful, nor burthensome to the country—desiring your consent, that I may send two gentlemen to our king, whoe entrusted mee, to bee assured of his

pleasure; till then, with God's leave, I shall cherefully run the extreamest hazards of war, as shall please God. Lastly, for your summons—when I see the authority you have from our king, and his parliament, commanding mee to deliver this place to your hands, I shall, with God's helpe, returne you a speedy, honest and playne answere. Till then,

Your well-wishing servant,

WILLIAM SALESBURY.

What ruine shall befalle this countrey, I refer it to the Supreme Judge, from whome noe secrets are hid; soe I rest, and soe I am. There is a God that judgeth the earth."

The weeks dragged on without the Parliamentarians making any inroads, and starvation seemed to be their main hope of success. Mytton, as a commander of experience, must have realized that time was on his side and would not fling away life in a foolhardy assault. It was an exceptionally hot summer and shortage of water added to the tribulations of the garrison who were also inflicted with "divers diseases."

On August 30th Mytton again wrote trusting that Salesbury would not make the country miserable by holding out any longer. In his reply Salesbury repeats his request made two months before to be allowed to send two messengers to the king for instructions.

"IN NOMINE JESU

"Sir—I shall ever acknowledge your curtesies, tho' unable to requite. For the condition of our king and his kingdomes, if God has soe disposed, blessed bee his name, and welcome be his will. In my answere to your second summons I desired your consent to send a gentleman or two to our king, to knowe his pleasure, but I received noe answere from you therein as yeat; the same desire I doe now *second* being confident I shall speed as others, who had the like granted from you; expecting your answere,

I rest your servant,

WILLIAM SALESBURY.

"Sir—I doe returne per this Drume, Sir John Trevour's letter and the *Diurnall*."

In declining the request Mytton explained that he had received positive instructions from the parliament not to allow any person to go to the king on any pretext. By this time Flint had surrendered, releasing the attacking force. A reply came from the castle that same day.

"IN NOMINE JESU

"Sir—The coming of more forces to besiege this place will noe way move my resolution, who preferre noe ende to the acquitting of myself like an honest man in that trust which my king hath committed to mee, which I am fully satisfied can never be done before my king receave an accompt of my proceedings, and without that (to deale freely with you) I have such an engagement upon mee, that I will not entertayne any overture of this nature—and since I must beelieve that your hands are tyed up, yeat I am soe much concerned in this business, that I must apply myself to other means, in that particular, for my satisfaction, which will take up some time; and if I must quit the place, I confesse I had rather you had the honour of it, than any other person in England, of your party; tho' give me leave to tell you, that the addition of a new force, bee the consequence what it will, will but add to my honour, which is all I have now left to care for.

I remayne your servant,

Ult. Augusti, 1646. WILLIAM SALESBURY.

It speaks well of the tightness of the blockade that Salesbury knew nothing about Charles's order, given several months before, to all fortresses in England and Wales to surrender, and that the king himself was in the hands of the Scots.

Somehow, perhaps by way of the sally-port, a messenger slipped from the castle, broke through the cordon and rode to Newcastle with Colonel Salesbury's letter to the king.

"IN NOMINE JESU

"May it please your Majesty—I have presumed to make my humble address to you by this gentleman, Mr. Eubull Thelwall, to let your Majesty understand that this castle hath

now for severall months byne closely besieged; what matter of action hath in that time happen'd, I humbly refer your Majesty to his relation, wherein I doe beseech your Majesty to give him creddit; praying for your Majesty's health and happiness.

I remayne

Your Majestie's loyall subject,

WILLIAM SALESBURY.

To this the King made reply:

"Newcastle, the 13th of September.

"Coronell Salesbury—I hartily thank you for your loyall constancie, and assure you, that whensoever it shall please God to enable me to show my thankfullness to my friends, I will particularly remember you. As for your answer, I refer you to thease messengers, to whom I have clearly declared my minde; commend me to all my friends. So I rest,

Yours most assured friend,

CHARLES R."

The letter was accompanied by a warrant of discharge dated September the 14th.

THE ROYAL WARRANT OF DISCHARGE

To our trusty and well-beloved Colonel William Salesbury, Governor of the Castle of Denbigh, in Wales.

CHARLES R.

"Whereas, Wee have resolved to comply with the desires of our parliament in every thing which may bee for the good of our subjects, and leave no means unassayed for removing all difference betwixt us—therefore wee have thought fitt, the more to evidence the reality of our intentions of settling a happy and firm peace, to authorize you, upon honourable conditions, to quit, and surrender the Castle of Denbigh, entrusted to you by us, and to disband all the forces under your command; for which your soe doeing, this shall bee your warrant.

Given at Newcastle, the 14th of Sept. 1646."

The articles of agreement were signed on October 14th, but it was not until October 26th that the garrison marched out with flying colours and drums beating and all the honours of war. The original 500 were reduced to 200. The commissioners acting for Colonel Salesbury were Lt. Col. Griffith, Col. Wynne, L. Major Manley, Major Reynalds, John Eaton Esq., John Thelwall Esq., Henricke (*sic*) Eaton Esq.([45]) The commissioners acting for Major-General Mytton were :

Lieut-Colonel George Twisleton, Lieut-Colonel Thomas Mason, Simon Thelwall Esq., Roger Hanmer Esq., Thomas Edwards Esq., Captain Robert Farrar and Nathaniel Barnett, clerk to the commissioners.

There were sixteen clauses in the articles ; to quote one will suffice to indicate their nature. (Spelling altered).

> "2, That Colonel William Salusbury, governor of the town and castle of Denbigh, with his servants, and all that to him belongs, and all officers and soldiers of horse and foot, as well reformed officers and volunteer soldiers as others, and all other officers with their servants, and all that appertains to them, shall march out of the town and castle of Denbigh, with their horses, and arms proportionable to their present or past commands, flying colours, drums beating, matches light at both ends, bullet in the mouth ; every soldier to have twelve charges of powder, match and bullet proportionable, with bag and baggage properly to them belonging ; and all persons of quality, clergymen and gentlemen with their servants, horses and arms, in like manner with bag and baggage, and all goods to them properly belonging to any place within ten miles, such as the governor shall make choice of ; where, in regard the king hath no army in the field, or garrison unbesieged to march to ; the common soldiers shall lay down their arms (their swords excepted) ; which arms, so laid down, shall be delivered up to such as General Mytton has appointed to receive them."

All defenders were desired to go to their homes or friends. Carts and teams were allowed for the carriage of goods. No

45 Kennick (later Sir Kennick) Eaton, Protonotary and Clerk of the Crown for counties Denbigh and Montgomery.

person was to be reproached or to have "any disgraceful speeches or affronts offered them." Nor were they to be stopped, plundered, or injured in their journey or places of abode. The sick and wounded were at liberty to stay in Denbigh until they recovered. The aldermen, bailiffs and burgesses of Denbigh were to be allowed to retain their ancient charters, customs and form of government. As Colonel Salusbury's estate had been seized by the government, he was allowed as much of his own grain and provision as he deemed expedient.

The generous nature of the articles reflected not only Mytton's chivalry but the high esteem in which Salesbury was held by his opponents.

The old hero, impoverished, spent his life quietly in obscurity, dwelling, according to Williams, in a farm of his called Bottegyr (Bodtegir) in the parish of Llanfihangel-Glyn-Myfyr[46] though there are letters in the *Salusbury Correspondence* indicating that in 1654 he lived "at his house near Llanvurog" (page 184).

The diarist Richard Symonds who stayed at the castle found Salesbury an "upright, honourable man." Sir Edward Walker said that under cover of a countryman, he had more experience, courage and loyalty than many who made far greater professions.[47] The fact that colonels from other garrisons were proud to serve under his command is eloquent testimony.


The steadfastness and simple sincerity of Old Blue Stockings is apparent in all he writes.

Having paid the substantial penalty demanded by the Parliament for taking up arms against them, Colonel Salesbury received the customary "pardon" which assured him of freedom from further molestation.

His closing years must have been embittered by a protracted quarrel with his son and heir, Owen, who did not share his father's views, nor, apparently, his parent's fanatical attachment to the Stuarts. It seems an unhappy reflection on human nature

46 *Ancient and Modern Denbigh*, p. 237.

47 *Dictionary of National Biography.*



The embroidered cap of crimson silk sent to Colonel William Salesbury by King Charles on the eve of his execution. The cap which is at Blythfield was photographed by the courtesy of the Rt. Hon. Lord Bagot.

that the very stubbornness which proved so admirable a quality in the defence of Denbigh was exhibited less commendably in the family circle. Owen died in 1657, apparently without reconciliation.

After Colonel Salesbury's death in 1660 Owen's son William succeeded to the Rûg estate. Charles II showed his appreciation of Colonel Salesbury by nominating William as a Knight of the Royal Oak. This distinction was also bestowed on Charles, Colonel Salesbury's fourth (but second surviving) son. Charles had a son and three daughters (doubtless the "Three Sisters" after whom the trees are named). Only Jane survived. As heiress she married Sir Walter Bagot, ancestor of Lord Bagot in whose ancient seat at Blithwood hangs the portrait of the redoubtable defender of Denbigh Castle.

The story of Colonel William Salesbury is nearly told. It will be recalled that when King Charles wrote him from Newcastle he assured him "whensoever it shall please God to enable me to show my thankfulness to my friends, I will particularly remember you."

Charles has been accused by his critics of breaking faith with his friends. Here was an instance, at all events, when he was true to his word. Even with the shadow of the executioner's axe over his head, he bore William Salesbury in mind. One of the King's last acts was to send him the embroidered crimson cap his Majesty constantly wore. It was all he had left in his power to bestow. That poignant proof of royal gratitude has been preserved, and through the courtesy of Lord Bagot, who holds the treasured relic at Blithwood we are enabled to reproduce its photograph to enhance an otherwise inadequate tribute to Hên Hosannau Gleision.

BIBLIOGRAPHY

Calendar of Salusbury Correspondence. Ed. W. J. Smith, M.A. (Board of Celtic Studies, University of Wales. History and Law Series No. 14.)

Ancient and Modern Denbigh. John Williams, 1856.

The Civil War in Wales and the Marches. J. Rowland Phillips, 1874.

Tours. Thomas Pennant, 1883.

Calendar of Wynn Papers. National Library of Wales.

Archaeologia Cambrensis. Vol. 1. (Wm. Maurice's Diary) and 1878.

Eminent Welshmen. Robert Williams, 1852.

Royal Visits and Progresses to Wales. E. Parry, 1850.

An account of the Castle and Town of Denbigh. Richard Newcombe, 1829.

Dictionary of National Biography.

Denbighshire Historical Society's *Transactions*, Vol. 3. (Professor A. H. Dodd, "The Civil War in East Denbighshire)."

Studies in Stuart Wales. Professor A. H. Dodd, M.A.

Journal. Chester and North Wales Archaeological and Historic Society, Vol. XXV.

The author gratefully acknowledges his indebtedness to Mr. W. J. Smith, editor of *The Salusbury Correspondence* for his kindness in reading the typescript of this article and giving valued advice.

The portrait of Colonel William Salesbury hangs at Blithwood, the seat of Lord Bagot, to whose courtesy we are indebted for this reproduction.

The portrait was painted in 1632 when Salusbury was 52 years old. The inclusion of a ship apparently refers to his voyage to India. The painting also incorporates the Salusbury coat-of-arms: a white lion rampant on a red field on which are three crescents. These have been interpreted as indicating that one of the Salusburys participated in a Crusade. The motto is A VYNNO DEW DERVID ("What God wills will come to pass").

The sword is of unusual pattern. The front quillon curves down to form a guard while the rear reverses upward. The hilt terminates in a beaked head of some bird or heraldic beast.

Gair yn ei Amser

Rhagymadrodd gan FRANK PRICE JONES

YMAE'N ddyletswydd ar Gymdeithas Hanes Sir Ddinbych ddathlu daucanmlwyddiant y gŵr mawr y daeth ei enw i'w gysylltu mor agos â'n tref sirol, sef Thomas Jones o Ddinbych. Un ffordd(1) o wneud hynny ydyw adargraffu peth o'i waith, ac i'r amcan hwn dewiswyd pamffled a gyhoeddodd yn 1798 dan y teitl *Gair yn ei Amser*. Er bod 10,000 o gopïau wedi eu hargraffu bryd hynny, aeth y pamffled yn brin iawn erbyn heddiw, ac efallai y bydd yn dda gan haneswyr ac eraill gael yr adargraffiad hwn o un o gyhoeddiadau Cymraeg pwysicaf cyfnod y Chwyldro Ffrengig.(2)

Y CEFNDIR—GWRTHRYFEL AMERICA.

Y mae'r Athro R. T. Jenkins wedi darlunio(3) dechreuad diddordeb mewn gwleidyddiaeth werinol yng Nghymru yn niwedd y Ddeunawfed Ganrif, ac wedi dangos fel y parodd y rhyfel yn America (1776-83) i werin Cymru ddechrau amau y gallai rhywbeth fod o'i le ar gyfundrefn a anfonai ein milwyr i wneuthur Brad ein Brodyr yn y trefedigaethau hynny. Yn yr un cyfnod, cynyddodd beirniadaeth ar gyfundrefn lywodraethol Prydain ymhlith rhai aelodau o ddosbarth y tir-feddianwyr a alwai'n "groch am leihau dylanwad y Weinyddiaeth ar y Senedd." Teimlent "bod gormod o adnoddau ariannol yn llaw'r Weinyddiaeth, segur-swyddau a phensiynau a phethau felly, a ddefnyddid i brynu pleidleisiau'r Aelodau Seneddol."(4) Dyma'r bobl a alwai am "Economical Reform."

Yr oedd beirniaid eraill, wedi eu cynhyrfu efallai gan yr ymdrechion a wnaed i gadw John Wilkes allan o'r Senedd, o'r farn mai gwendid ein cyfansoddiad ydoedd bod yr hawl i bleid-

---

(1) Bwriadwn gyhoeddi papur llawnach yn trafod bywyd a gwaith T.J. yn ein cyfrol nesaf.

(2) Ceir cynnwys y pamffled yn llawn yng *Nghofiant y Parch. Thomas Jones o Ddinbych* gan Jonathan Jones (Dinbych 1897), ond nid yw'r gyfrol werthfawr honno gan bawb wrth gwrs.

(3) *Hanes Cymru yn y 19eg Ganrif* (Caerdydd 1933). Gw. hefyd cyfrol werthfawr Mr. J. J. Evans: *Dylanwad y Chwyldro Ffrengig ar Lenyddiaeth Cymru* (Lerpwl 1928).

(4) R. T. Jenkins: *op cit* t. 8.

leisio wedi ei chyfyngu i gyn lleied o bobl, a galwent hwy am estyn yr etholfraint a diwygio'r Senedd. Er hyn, prin y gellid eu galw'n ddemocrataidd yn ystyr fodern y gair: ni chredent hwy mai cynrychioli'r werin ydoedd gwaith y Senedd, onide ni cheid rhai o dir-feddianwyr Sir Fflint, a'r Deon William Davies Shipley yn eu plith.(5) Anelu at leihau gallu'r Weinyddiaeth dros y Senedd yn unig a wnai'r "diwygwyr" hyn.

Yn ystod y rhyfel â'r America, clywyd lleisiau newydd yn pregethu egwyddorion mwy peryglus, ac yn arbennig yr egwyddor mai gyda'r werin y trigai gwir sofraniaeth, ac nad oedd y llywodraethwyr a'r brenhinoedd a'r seneddwyr yn ddim ond cynrychiolwyr barn y werin, yn ymddiriedolwyr neu'n weision i weithredu barn a dymuniadau'r bobl. Yr oedd dau Ymneilltuwr o Gymry ymhlith proffwydi amlycaf yr ysgol newydd hon, sef Richard Price (1723-91) a David Williams (1738-1816)(6). Bu ysgrifeniadau'r ddau hyn, ac yn arbennig *Observations on the Nature of Civil Liberty* (1776) Richard Price, o gymorth mawr i nerthu'r trefedigaethwyr yn America yn eu hymdrech yn erbyn Llywodraeth George III, ac ymledodd yr egwyddorion a bregethent nid yn unig yn America, ond hefyd i Ffrainc, ac (yr hyn sy'n bwysicach i'n pwrpas ni yma) ymhlith rhai o'u cyd-Gymry.

Yn ol dosbarthiad Dr. R. T. Jenkins (7) gellid rhannu mwyafrif trigolion Cymru yn y cyfnod hwn i dri dosbarth: y dosbarth mwyaf ydoedd "y werin ddifeddwl dan arweiniad ei hysweiniaid a'i chlerigwyr a'i swyddogion gwladol." Yr ail ydoedd y Methodistiaid dirmygedig; yr oeddynt hwy wedi ymsefydlu'n bur gryf mewn llawer ardal yn y de, ac yn prysur ychwanegu at eu rhif yn y gogledd, er gwaethaf erledigaeth a gwawd y dosbarth cyntaf, a gwrthwynebiad ffyrnig a chreulon ambell yswain a pherson. Ond "ar ben y daith" yn hytrach nag ar "droeon yr

(5) Y mae peth o hanes treial y Deon am gyhoeddi *The Principles of Government in a Dialogue between a Scholar and a peasant* gan Syr T. Artemus Jones yn *Without my Wig* (Liverpool 1944), chap. IX. Diddorol yw sylwi bod Pwyllgor Sir y Fflint wedi bwriadu gofyn i Mr. Lloyd, offeiriad Caerwys, a chyfaill i Thomas Jones, gyfieithu'r pamffled i'r Gymraeg. Gw. J. J. Evans, *op. cit* t. 17.

(6) Ar Richard Price gw. Roland Thomas: *Richard Price* (Oxford 1924). Gw. *Bywgraffiadur* am D. Williams.

(7) *op. cit.* t. 27.

yrfa" yr oedd holl fryd y "pererinion" hyn. Y trydydd dosbarth ydoedd yr "Hen Ymneilltuwyr"—y Disentars, yn Annibynwyr, yn Fedyddwyr ac yn Undodwyr: er i'r rhain erbyn diwedd y 18fed ganrif ddirywio i fod yn ddim ond "Methodistiaid ag 'm' fechan," chwedl Dr. Jenkins, yr oedd iddynt draddodiad o ymddiddori mewn gwleidyddiaeth, ac fel Anghydffurfwyr yr oeddynt dan anfanteision gwleidyddol oherwydd Deddfau'r Prawf a'r Corfforaethau a basiwyd ar ol Adferiad Charles II. Y mae'n wir nad oeddynt yn dioddef llawer oherwydd hyn gan fod y Senedd yn "maddau" eu troseddau bob blwyddyn, ond llwyddodd gwarthnod eu dinasyddiaeth anghyflawn, ynghyd â'u traddodiad, i symbylu rhai ohonynt i feirniadu trefn llywodraeth eu dydd. Ac ar adain chwith yr Ymneilltuwyr hyn yr oedd Richard Price a David Williams.

Y CHWYLDRO FFRENGIG

Pan dorrodd y Chwyldro Ffrengig yn 1789, croesawyd ef gan lawer o bobl barchus ym Mhrydain fel toriad gwawr rhyddid ar Ewrob. Gallai hyd yn oed Wordsworth orfoleddu:

> "Bliss was it in that dawn to be alive".

Nid yw'n syn, felly, i Richard Price groesawu'r(8) amlygiad hwn o weithredu'r egwyddorion a bregethasai ef, na bod David Williams yn ddiweddarach wedi croesi i Baris gan fwriadu helpu ei gyfeillion yno i drefnu cyfansoddiad i'r weriniaeth newydd.

Yn Llundain erbyn hyn yr oedd amryw o gymdeithasau democrataidd, megis y "Society for Constitutional Information," wedi eu sefydlu i hyrwyddo syniadau radicalaidd, a diau i lawer o'r Cymry a drigai yn y brifddinas ddyfod dan ddylanwad y syniadau newydd hyn. Digwyddodd hynny'n sicr i amryw o aelodau Cymdeithas y Gwyneddigion(9) oherwydd gallai'r gŵr cefnog hwnnw, Owain Jones o Lanfihangel Glyn Myfyr, ddatgan yn frwdfrydig mai "Rhyddid mewn gwlad ac Eglwys yw amcan y Gymdeithas . . . ."

---

(8) *On Love of Country*, pregeth a draddododd i'r "Society for the Commemoration of the Revolution of 1688," 4 Tach. 1789.

(9) Gw. Jenkins & Ramage: *History of the Hon. Soc. of Cymmrodorion* (London 1951) Chap. IV.

Ond ar ol y croeso brwd cyntaf hwn, ac yn arbennig wedi i'r newydd gyrraedd am "Ddyddiau'r Dychryn" a dienyddio Brenin Ffrainc, oerodd brwdfrydedd llawer o'r "radicaliaid" cynnar ([10]) ac wedi i Brydain gyhoeddi rhyfel yn erbyn Ffrainc Weriniaethol, yr oedd parhau i ledaenu syniadau chwyldroadol yn beth peryglus i'w wneud.

Fel yr âi'r rhyfel rhagddo, ac yn arbennig pan dduai'r ffurfafen fel yn 1797, pan lwyddodd cwmni o'r gelyn i lanio ar dir Cymru, yr oedd datgan unrhyw feirniadaeth o'r awdurdodau neu'r drefn sefydledig yn ddigon i garcharu dyn.

Er hyn i gyd, parhâi ambell radical o Gymro i leisio'i anfodlonrwydd yn y tri chylchgrawn Cymraeg a gyhoeddwyd rhwng 1793 a 1796, ac mewn pamffledi. "Hen Ymneilltuwyr," neu "ddynion o'r byd" ydoedd y beirniaid hyn bron yn ddieithriad; Bedyddiwr ydoedd Morgan John Rhys, golygydd y *Cylchgrawn Cyn-mraeg*([11]), Undodwr oedd Thomas Evans (*Tomos Glyn Cothi*) golygydd *Y Drysorfa Gymmysgedig* (1795), ac Annibynnwr ydoedd David Davies, Treffynnon, golygydd *Y Geirgrawn* (1796).

Clywyd gwrth-dystiad y radical yn y *Cylchgrawn Cyn-mraeg* yn gynnar yn 1793 mewn erthygl "Am Lywodraeth" ;([12]) wedi iddo son am y cyngor i ofni Duw ac anrhydeddu'r Brenin, dywed: "Ond gwybyddwch nad yw hyn mewn un mesur yn dinistrio'r hawl sydd gan bob dyn, fal aelod o'r gymdeithas, i fod a *llais* yn newisiad y swyddwyr gwladol."

Gwyddai gohebwyr y cylchgronau hyn bod perygl iddynt gael ei herlid am ddatgan eu syniadau, ac yr oedd ysbryd erlidgar yn destun ymosod cyson ganddynt. Yn arbennig yr oedd

---

(10) Mor gynnar â Chwef. 1793 yr oedd Gweinidogion y "Tri Enw" yn siroedd Aberteifi, Caerfyrddin a Phenfro'n datgan eu ffyddlondeb i'r brenin a'r Llywodraeth. Gw. J. J. Evans *op cit* tt. 120-1. Ac yr oedd David Jones, radical cynnar a ysgrifennai dan yr enw "Welsh Freeholder" wedi lliniaru llawer ar ei ddaliadau ; gw. *Farewell Epistles to the Right Rev. Samuel, Bishop of Rochester* (London 1794).

(11) Defnyddiaf y ffurf *Cylchgrawn Cyn-mraeg* ar gyfer pum rhifyn y cylchgrawn hwn, er nad yw hynny'n fanwl-gywir ; gw. fy nodyn yn *Journal of the Welsh Biobliog. Soc.* VIII (2) 1955, tt. 101-2. Sylwer mai yn Nhrefeca yr argraffwyd dwy ran gyntaf a darn o'r drydedd o'r *Cylchgrawn* ; ni fynnai'r Methodist Evan Moses ymhel â'r fath gyhoeddiad peryglus a bu'n rhaid argraffu'r gweddill ym Machynlleth a Chaerfyrddin.

(12) *Cylchgrawn Cyn-mraeg*, Chwef. 1793, t. 43.

"Ysbryd Erlidigaethus mewn Crefyddwyr yn beth atgas" fel y dywedodd "D. Ioan, Abertawe", mewn llythyr i'r *Cylchgrawn*.(13) Ac wrth gwrs yr oedd cysylltiad yr Eglwys Sefydledig a'r Wladwriaeth mor glos nes bod beirniadaeth ar y naill yn effeithio ar y llall. Yn yr un rhifyn o'r *Cylchgrawn*(14) ceir nifer o englynion sy'n cynnwys y llinellau hyn :

> Nid preiliaid neu 'ffeiriaid neu 'fferen
> Ddylem ni ddilyn yn llawen ;
> MAB DUW, nid *pab* yw'n PEN
> Cyd-bwys i fod yn Cad-pen.
>
> . . . . . .
>
> O ddwled yw'r addolydd
> A âd i offeiriad ei ffydd.

Ychwanegodd y golygydd, dan y ffugenw *Philo Rectum* nodyn hir i ddweud : "Gellir cymhwyso'r farddoniaeth at drawslywodraeth *ddinasaidd* yn gystal ac *eglwysaidd*.—Y mae rhyddid dinasaidd ac eglwysaidd yn wastad yn cydfyned ac yn sefyll neu yn syrthio gyda'i gilydd".(15). Ac yna aeth ymlaen i ymosod ar yr egwyddor o sefydlu unrhyw grefydd. Yna cyhoeddodd nifer o erthyglau ar "Hanes Degymau"(16) ac ar "Hanes Crefydd o ran ei Dirywiaeth" lle rhoddir lle amlwg i ddioddefiadau'r "corff anrhydeddus a elwir yn Cwaceriaid" oherwydd eu gwrthwynebiad i gynnal y Sefydliad.(17) A thrachefn dywedodd am y Crynwyr : "Y mae'r corff hwn yn ystyried pob math o dreth a osodir arnynt at wasanaeth yr Eglwys yn erledigaeth . . . eu hateb i'r offeiriaid . . . yw Dim gwaith, dim tal, *No work, no pay*".(18) Ar yr un tudalen, wrth nodi bod anesmwythyd yn crynhoi ymhlith y Gwyddelod, dywed : "Nid oes un ffordd i ddinystrio eiddigedd a chynnen heb osod pob plaid o grefyddwyr yn ogyfuwch eu braint yng ngolwg y llywodraeth".

---

(13) *Ibid* Awst 1793, tt. 135-6.

(14) *Ibid*, tt. 147-8.

(15) Diddorol yw sylwi i R. Price a D. Williams ddyfod i'r amlwg fel pleidwyr rhyddid crefyddol. Gw. J. J. Evans : *op cit* tt. 12-15. Canodd Iolo Morganwg yntau yn 1793 :

> Clyw'r brenin balch di-ras
> A thi'r offeiriad bras
> Dau ddiawl ynglŷn . . . Gw. *Ibid*, t. 90.

(16) *Cylchgrawn Cyn-mraeg*, tt. 150-4.

(17) Gw., e.e. *Ibid*, tt. 156-7.

(18) *Ibid*, t. 180.

Yr oedd y radical gan Morgan John Rhys yn gweithredu'r rhyddid a bregethai, a chyhoeddodd ateb i'w sylwadau ar grefydd sefydledig(19) a daeth ateb i'r ateb hwnnw drachefn.(20) Yna ymosododd rhywun dan yr enw *Philanthropos* ar annhegwch sefydliad eglwysig(21) ond erbyn dechrau 1794 daeth Eglwyswr dan yr enw *Peris*(22) i'r adwy i ddweud mai Eglwys Loegr, yr Eglwys Sefydledig, ydoedd y gwrthglawdd cryfaf yn erbyn terfysg.(23) Gofalodd y golygydd am roi "Ymddiddan rhwng Esgob a Disgybl"(24) yn union ar ol ysgrif *Peris* i ddarlunio dwy ochr y ddadl !

Gwelir oddi wrth yr ychydig ddyfyniadau hyn o'r *Cylchgrawn* bod y radicaliaid cynnar yn ymosod nid yn unig ar drefn lywodraethol y wlad, ond hefyd ar yr Eglwys Esgobol fel cynheilydd a llaw-forwyn y wladwriaeth—"Y mae rhyddid dinasaidd ac eglwysaidd yn wastad yn cydfyned ac yn sefyll neu yn syrthio gyda'i gilydd".

Felly y gwnaent yn *Y Geirgrawn* yn 1796. Nid oedd golygydd hwnnw, David Davies, yn ceisio cuddio ei syniadau blaengar ei hun, ac er iddo gyhoeddi erthyglau yn gwrthwynebu ei safbwynt ef, gofalai am eu hateb mewn nodyn ar eu diwedd neu mewn ysgrif arall. Pan ymosododd *Peris* ar "ganlynwyr Tom Paine (un o ba rai yw Sion Jones cyfieithydd y *Seren Tan Gwmmwl*)" am eu bod yn "llwyr elyniaethol i Frenhinoedd, Esgobion, Offeiriadon, Degymau a chrefydd sefydledig", ychwanegodd y golygydd :(25)

> "Wrth edrych yn fanwl . . . ar gysylltiad geiriau Pedr (*Pedr* ii, 13, 14, 17) a'u cymharu a'r hyn a ddywed *Paul* (*Rhuf.* xiii, 1-7) e welir yn eglur nad yw efe yn gorchymyn i ni anrhydeddu neb rhyw swyddogion gwladol ond y rhai y mae anrhydedd a pharch yn ddyledus iddynt. . . . Pan y mae Paul

(19) *Ibid*, tt. 208-10.

(20) *Ibid*, tt. 255-60 gan *Philopax*.

(21) *Ibid*, tt. 210-12.

(22) Yn ol Mr. J. J. Evans, *op. cit*, t. 154, y Parch, Peter Bailey Williams oedd hwn.

(23) *Cylchgrawn Cyn-mraeg* 1794, tt. 245-8.

(24) *Ibid*, tt. 248-58.

(25) *Geirgrawn*, tt. 144-6.

yn haeru fod 'yr awdurdodau sydd wedi eu hordeinio gan Dduw' a bod yr hwn 'sydd yn ymosod yn erbyn yr awdurdod yn gwrthwynebu ordinhad Duw,' ei feddwl yw fod Duw wedi ordeinio rheol neu gyfraith; ac na chai dynion fyw'n benrhydd fel bleiddiaid . . . ac mai ordinhad Duw yw llywodraeth wladol. Ond o ran ei dull a'i threfn, *ordinhad ddynol* ydyw hi."

Atebwyd *Peris* gan *Carwr Rheswm*(26) a chan Jac Glan y Gors hefyd(27) ond nid oes angen dyfynnu rhagor o'r *Geirgrawn*; rhoddwyd digon eisoes i ddangos bod rhai o Radicaliaid Cymru'n barod i ddadlau eu hawl i feirniadu trefniadau gwlad ac eglwys mor ddiweddar a 1796.

Gwelsom uchod fod *Peris* yn awgrymu mai *cyfieithu Seren Tan Gwmmwl* a wnaeth John Jones, ond atebwyd hynny gan *Carwr Rheswm* a chan Glan y Gors ei hunan. Y mae'n ddigon amlwg mai gan Tom Paine a Radicaliaid eraill y cafodd Jac ei syniadau, ond y mae cymreigrwydd ei bamffledi yn ddigon iach. Yn y cyntaf, *Seren Tan Gwmmwl* a gyhoeddodd yn Llundain yn 1795(28) beirniadodd Jac y Llywodraeth a'r Eglwys, fel y gwnai gohebwyr y cylchgronau. Am yr esgobion a'r offeiriadau, y maent, meddai, "megis brehinoedd eu hunain, ac yn fwy gorthrymwyr i'w plwyfolion nag a fu Nero erioed yn Rhufain".(29) Cŵynai hefyd yn erbyn "talu myrddiwn o bunnau" i gadw'r Brenin, ac am fod Tywysog Cymru'n mynd i ddyled ag yntau'n cael £400 *y dydd* i'w gadw, tra roedd gwerinwr o Gymro'n gorfod cadw ei deulu ar goron yr wythnos.(30). Dychwelodd at yr esgobion i ddweud mai'r "peth rhyfedda glybuwyd erioed . . . [oedd] fod pedwar esgob yn cael taledigaeth fawr am gymryd arnynt i bregethu i bobl na fedr yr esgob ddarllen mo'i bader yn eu hiaith hwy," ond bod yr esgobion er hynny'n "deall pa fodd i dderbyn eu harian hwy, ac wrth hynny'n tlodi'r wlad."(31) A chan gyfeirio at batrwm ei nefoedd radicalaidd, dywed: "Ni

(26) *Ibid*, tt. 236-9. Gwallter Mechain ydoedd *Carwr Rheswm* yn ol Mr. J. J. Evans.

(27) *Ibid*, tt. 243-6.

(28) Cafwyd arg. diweddar gan Wasg y Brython, Lerpwl, yn 1923. At dudalennau hwnnw y cyfeiria'r nodiadau isod.

(29) *Seren Tan Gwmmwl*, t. 7.

(30) *Ibid*, tt. 35-6.

(31) *Ibid*, t. 36.

ddarfu'r gynulleidfa a wnaeth reolau a chyfreithiau llywodraeth America ddim gwneuthur cyfraith i godi degymau . . . i ysbeilio y gwerin (*sic*) . . ."

Ail-adroddodd Jac ei gŵynion yn ei ail bamffled, *Toriad y Dydd* yn 1797.(32)

Radical arall a fwriadai gyhoeddi ei farn yn y *Geirgrawn* ydoedd Thomas Roberts, Llwynrhudol,(33) ond ni chafodd wneud hynny oherwydd, meddai ef, "fe gymerodd rhyw Gnafiaid fawr ofal i ddychrynu y dyn [D. Davies] a'i rwystro i fyned ymlaen yn ei orchwyl, a bwgwth ei yrru i ffwrdd o'r wlad . . . am iddo gyhoeddi pethau buddiol, sef yr hyn ag oedd yn taro at wreiddyn Gorthrymder.(34)

Protestio yn erbyn gormes o bob math a wnaeth ef yn yr ysgrif a gyhoeddwyd yn bamffled dan y teitl *Cŵyn yn Erbyn Gorthrymder* yn 1798, a gwnaeth ei brotest dros Gymru, er mai alltud yn Llundain oedd, "oherwydd fy mod yn meddwl nad oes amryw yng Nghymru yn *beiddio ymyru* ag e; naill ai rhag ofn digio y *Gwŷr Mawr* a cholli eu tiroedd neu ynte rhag ofn erledigaeth . . . ."(35)

Ymneilltuwr ydoedd Thomas Roberts, a'i osgo at y Crynwyr, ond yr un pethau sy'n gorthrymu Cymru yn ei farn ef ag ym marn Glan y Gors. Ymesyd Thomas Roberts ar rwysg yr esgobion, annhegwch degymau, ysbryd erlidgar a bydolrwydd ac ariangarwch y clerigwyr. Daw'r ysgwieriaid, y doctoriaid a'r cyfreithwyr dan ei lach, a gwêl yntau well pethau dros y mor yn America. Heb flewyn ar ei dafod, ceryddodd:

> yr *ynfydion*, y rhai ag sydd ar bob amser pan elir i siarad a nhw y'nghylch trefn y Llywodraeth, a'r *Rhyfel cyfiawn ac angenrheidiol* (mal y galwent) yr hwn sydd rhwng *Brenin* Lloegr a'r Ffrancod yn bresennol . . . yn rhoddi y bai ar Dduw. . . . . Nid ewyllys y BOD MAWR yw i *Frenhinoedd* ac *Ysbeilwyr*

(32) Gw. argraffiad y Brython (1923).

(33) Ar. T. Roberts, gw. y *Bywgraffiadur* a *History of Hon. Soc. of Cymmrodorion*, tt. 110-12.

(34) *Cwyn yn erbyn Gorthrymder*, t.v. Cyhoeddwyd ef gyntaf yn Llundain 1798: cafwyd ail-argraffiad gan Wasg Prifysgol Cymru yn 1928.

(35) *Cwyn*, t. iv.

eraill yru dynion, heb yn waethaf iddynt, mewn gwaed oer i ladd ac i labyddio eu gilydd, ond ewyllys gelyn eu heneidiau, sef y diafol.(36)

Cyn hyn, yn y pamffled, dangosasai nad da ganddo syniadau rhai pobl (ac yn arbennig y Methodistiaid) am etholedigaeth, ac i'w ateb hwy ar gwestiwn y Rhyfel, meddai:

> Y mae y Rhagarfaethwyr yn gwrthddadlau yn y modd hyn. Pa beth a wnewch chwi a'r ysgrythur yma—' Onid oes awdurdod i'r crochenydd ar y priddgist i wneuthur o'r un telpyn pridd un llestr i barch ac arall i anmharch?' Gallai hynny fod, ond ni fu yr un crochenydd erioed mor wirion ac anrhesymol a gwneud llestr yn y byd, a hynny'n fwriadol i'w ddryllio . . . .(37)

Fel Richard Price ac eraill, credai Thomas Roberts "mai dyletswydd pawb yw amlygu, cyhoeddi a gwrthwynebu pob math o ormes a fo ac a fu yn trais-ruthro ar FREINTIAU DYN, pe collent eu bywydau wrth hynny."(38) Ond dywed hefyd: "Ni fynnwn er dim wrthwynebu cyfraith ddrwg a hynny drwy foddion anghyfreithlon",(39) (*Constitutional Reformer* ydoedd ef, a rhagflaenydd David Rees, S.R. a Radicaliaid eraill Cymru yn y 19eg Ganrif) ac ar ddiwedd ei bamffled, amlinellodd gyfundrefn o festrioedd y gallai'r Cymry ddatgan eu barn drwyddi a gwella cyflwr pethau eu hunain.(40)

CYNNYDD Y METHODISTIAID

Gŵr o flaen ei oes ydoedd Thomas Roberts, ac nid oedd berygl y derbynnid ei gynllun yng Nghymru, a hynny i raddau oherwydd bod y Methodistiaid, gyda'u syniadau am "lonyddwch gwleidyddol", yn prysur ychwanegu at eu dilynwyr yn y cyfnod hwn. Nid oes amheuaeth nad oedd beirniadaeth y Radicaliaid yn blino'r personiaid a'r ynadon heddwch a'r esgobion (gan gynnwys yr Esgob Watson), ond yr oedd cynnydd sylweddol a rhyfeddol y Methodistiaid yn eu blino lawer mwy.

Gellid tybio, o ran hynny, bod llwyddiant y Methodistiaid yn flinder i'r Radicaliaid hwythau, oherwydd yr oedd y Gwyn-

(36) *Ibid*, t. 29. (37) *Ibid*, t. 31. (38) *Ibid*, t. 42.
(39) *Ibid*, t. 43. (40) *Ibid*, tt. 48-50.

eddigion yn bur wrthwynebol iddynt(41) ac ni hoffai Thomas Roberts mohonynt am eu bod "yn haeru fod Duw wedi trefnu er cyn creu y Byd ryw nifer i fod yn etholedig, a mai nhw yw y rhai a ddewisodd Duw."(42) Ac meddai Iolo Morganwg mewn llythyr at William Owen (-Pughe) yn 1799: "North Wales is now as Methodistical as South Wales and South Wales as Hell. . . ."(43) A thrachefn, yn 1797 cyhoeddodd Edward Charles (44) o Glocaenog gyfrol o chwech o *Epistolau Cymraeg at y Cymry*(45) yn ymosod ar y Methodistiaid ac yn cŵyno bod gwerin Cymru'n cymryd eu dallu gan y "jack y lanterns" a ddisgynnodd i'w plith yn lle'r ysbryd glan. Ond chwarae teg i'r Gwyneddigion, nid oeddynt, ar wahân i Edward Charles, yn annheg: gwerthfawrogai Thomas Roberts waith y Methodistiaid yn cynnal ysgolion yng Nghymru(46) yn ei *Gŵyn*, ac erbyn 1806 cyhoeddodd bamffled, dan y ffugenw *Arvonius*, i'w hamddiffyn rhag *Epistolau* enllibus Edward Charles.(47) A daeth Twm o'r Nant yntau i'r adwy, a dweud wrth Charles:

> Mae d'Epistolau diawlig
> Fel rhisgl hen helig noeth.
> I erthylu wnaist, ni thale nhw
> Ddim ond eu bwrw'n boeth.

Ni fynnai rhai o'r personiaid wrando ar unrhyw blê dros y Methodistiaid. Wedi'r cyfan, yr oedd llwyddiant y Methodistiaid yn feirniadaeth weladwy i bawb, ac yn feirniadaeth barhaol ar eu haneffeithiolder hwy fel bugeiliaid ac athrawon eu plwyfolion, fel y sylwodd Thomas Roberts yn ei *Gŵyn* ac yn ei *Amddiffyniad*.(48) Yr oedd y Methodistiaid yn gwneud gwaith y personiaid yn well nag y gallai'r personiaid ei wneud, ac anodd ydoedd maddau iddynt. Rhoi halen ar y briw a wnai'r Esgob

---

(41) Gw. *History of the Hon. Soc. of Cymmrodorion*, chap. IV.

(42) *Cwyn yn erbyn Gorthrymder*, t. 23.

(43) Gw. *Y Llenor* X (1931), tt. 25-34.

(44) Ar Edward Charles, gw. *Bywgraffiadur*. Yr oedd wedi ymosod ar y Methodistiaid cyn hyn, gw. *Cylchgrawn Cyn-mraeg* Tach. 1793.

(45) Cyhoeddwyd yn Llundain Meh. 1797. Gw. ysgrif Hubert Morgan yn *Y Llenor* X (1931), tt. 25-34.

(46) *Gwyn yn erbyn Gorthrymder*, t. 14.

(47) *Amddiffyniad y Methodistiaid* (Caerfyrddin 1806), tt. 1-24.

(48) Gw. e.e. *Cwyn*, tt. 14-15 ac *Amddiffyniad*, t. 10: "ni fedr y pregethwyr enwocaf yn eu plith [h.y., yr Eglwyswyr] bregethu hanner cystal" [a'r Methodistiaid].

Burnett wrth gynghori ei glerigwyr i gyfarfod her y Methodistiaid a dweud wrthynt: "Out-live, out-pray and out-preach them".(49) Fel y cyfaddefodd y "Country Gentleman" mewn deialog ag un o'i gymdogion tlawd: "There they [y Methodistiaid] have the advantage of us. They have certainly more zeal for their cause than we have for our Church".(50)

CAM-GYHUDDO'R METHODISTIAID

Nid oedd mwyafrif y personiaid yn barod i gydnabod hyn wrth gwrs, ac er mwyn gwrthwynebu'r Methodistiaid, dechreuodd rhai o'r Eglwyswyr eu pardduo a'u cyhuddo o deyrnfradwriaeth ac o geisio tanseilio llywodraeth y wlad trwy ymosod yn y lle cyntaf ar ei Sefydliad Eglwysig. Yr oedd hyn yn annheg ac anonest: yr oedd y Methodistiaid yn parhau'n aelodau o'r Eglwys Wladol, fel y protestiai Thomas Charles yn ei *Welsh Methodists Vindicated* a'i Ragymadrodd i *Rules and Designs of the Religious Societies among the Welsh Methodists* a gyhoeddwyd, ill dau, o Gaer yn 1802. Nid oeddynt yn bwriadu, bryd hynny, ymadael â'r Eglwys.

Ac nid Methodistiaid, fel y gwelsom uchod, ydoedd y rhai a feirniadai'r Llywodraeth a'r Eglwys Sefydledig, eithr yn hytrach Ymneilltuwyr eithafol gan mwyaf—Thomas Roberts, Morgan John Rhys, Tomos Glyn Cothi, Iolo Morganwg, David Davies a Jac Glan y Gors. Ond ni fennai hyn ddim ar rai o'r clerigwyr mwyaf erlidgar; y Methodistiaid oedd y bygythiad pennaf i'w cysur hwy, ac er mwyn pardduo'r Methodistiaid, priodolodd yr offeiriaid hyn iddynt hwy y syniadau radicalaidd a drafodwyd uchod.

Yr oedd nythaid o'r gwrth-Fethodistiaid hyn ar lannau Menai: y Parchedig T. E. Owen, person Llandyfrydog yn byw ym Miwmares, y Parchedig Hugh Davies, "Llên-wr Aber"(51), a'r Parchedig Ddoctor Peter Williams, archddiacon Meirionydd a chaplan i Esgob Bangor. Ar ol cyhoeddi *Gair yn ei Amser* yr

(49) Gw. Thos. Charles: *Welsh Methodists Vindicated*, t. 29.

(50) Anon.: *A Dialogue between a Country Gentleman and one of his poor Neighbours* (etc.) (1801), p. 49.

(51) Nid Owen Reynolds fel y dywed Jonathan Jones *op. cit*, t. 423, ac Idwal Jones *Journal* of the Welsh Bibliographical Soc. V.3, p. 143.

ymddanghosodd eu pamffledi hwy(52) ond yn sicr, cynhwysant syniadau a chyhuddiadau a oedd yn gyffredin ar lafar ymhell cyn hyn—er enghraifft, cyhudda T. E. Owen y Methodistiaid o wrthod dwyn arfau ar y Sul "during the last threatened invasion" sef yn 1797(53).

Gan fod y Methodistiaid yn cyfarfod mewn seiadau preifat a chyfrinachol, hawdd iawn ydoedd awgrymu eu bod yn cynllwynio brad yno, a dywed T. E. Owen (54) wrth drafod y perygl i'r Wladwriaeth oddi wrth "gymdeithasau cudd":

> I have [no hesitation] in declaring that they [the Methodists] are the most dangerous, because *the most secret, the most wary and most persevering of our enemies*, that their numbers have astonishingly and incredibly increased of late, that their hostility to the Church has proportionately increased and that unless some method is adopted to put a stop to their proceedings, the safety of the country will be endangered.

Nid oedd trefniadau'r Methodistiaid yn ddim ond "freemasonry and illuminism in disguise"(55) a chŵynodd yn chwerw am fod 'two of their most violent and most ignorant preachers, Elias and Lloyd," wedi cael mynd i'r Iwerddon i bregethu "to the Welsh regiments. . . . . I have heard complaints of [the disloyalty] of some of them since . . . for how long may a soldier retain his allegiance to his King after his apostacy from the Church?"(56).

Fel y dywedodd y diweddar D. E. Jenkins:

> "It was easy then to fix on this movement—its very enthusiasm condemning the apathy of the loyal patriotic Churchman—to cry down its supporters as enemies of the Church. And if enemies of the Church, enemies of the King—head of the Church."(57)

---

(52) Dyma rai o'r prif bamffledi gwrth-Fethodistaidd: T. E. Owen, *Hints to Heads of Families* (London 1801), a *Methodism Unmasked* (London 1802).

Hugh Davies; *Cyngor Difrif Periglor i'w Blwyfolion.* (Caernarfon 1801) P. Williams: *A Short Vindication of the Established Church* (Oxford 1803).

(53) *Methodism Unmasked*, p. viii. (54) *Hints to Heads of Families*, p. 5.

(55) *Ibid*, p. 6. (56) *Ibid*, p. 7.

(57) Rhagymadrodd i argraffiad Conwy o *Hints to Heads of Families* (1905), p. 3.

Ar wahân i'r dybiaeth led sicr hon bod y syniadau cyfeiliornus hyn yn destun sgwrs cyn cyhoeddi llyfrau'r clerigwyr gwrth-Fethodistaidd, y mae *Epistolau* Edward Charles a rhai erthyglau y *Gentleman's Magazine* a gyhoeddwyd cyn argraffu *Gair yn ei Amser* yn profi'n eglur bod cyhuddiadau o deyrnfradwriaeth yn cael eu dwyn yn erbyn y Methodistiaid cyn 1798. Mewn llythyr at Arglwydd Kenyon, wedi ei ddyddio "Broughton December 19 1792"dywed Peter Whitehall Davies bod Methodist yn traddodi darlithiau ar lyfr Tom Paine, *The Rights of Man* yn ardal Wrecsam.(58)

Yr oedd bri mawr ar ddilorni'r Methodistiaid yn Lloegr bryd hyn, fel y dywed D. E. Jenkins (59) a chroesewid erthyglau ar y pwnc yng nghylchgronau Llundain. Ond yr oedd y ffasiwn wedi hen wreiddio yng Nghymru hefyd, fel y dengys rhai o lythyrau'r *Gentleman's Magazine*: "[Methodist preachers] are embodied under the guidance of a regular system to overthrow the Church and State" meddai *Urbicus*(60) yn 1798, a'r flwyddyn nesaf cafwyd ysgrifau'n gwawdio'r *Jumpers* yng Nghaernarfon(61) ac un arall gan "W.M.B." o Ddinbych yn dweud(62) bod dros bedair mil yn bresennol mewn cyfarfod Methodistaidd yn y dref yn Ebrill, ac aeth ymlaen i ddweud:

> What renders this sect more dangerous is that the preachers are in general instruments of Jacobinism sent into this country to disseminate their doctrines; and I assure you that Paine's works and other books of like tendency, have been translated into Welsh and secretly distributed about by leaders of this sect.(63)

---

(58) Gw. A. N. Palmer yn *Cymm. Trans.* 1897-8, t. 46.

(59) Gw. ei Ragymadrodd i arg. Conwy (1905) o'r *Hints*, etc.

(60) *Gentleman's Magazine* 1798 ii, 855.

(61) *Ibid* 1799 ii, 579.

(62) *Ibid* 1799 ii, 741. Gwelir nad yw Mr. J. J. Evans ddim yn hollol gywir pan ddywed yn *Dylanwad y Chwyldro Ffrengig*, t. 184: "Dechreuwyd yr ymosod mewn llythyr gan W.M.B. yn y *Gentleman's Magazine* (Awst 1799)."

(63) Cym. cyhuddiad Peter Whitehall Davies yn ei lythyr at Kenyon yn 1792, uchod.

Ceir rhagor o gyhuddiadau tebyg yn yr un gyfrol o'r cylchgrawn(64) a anfonwyd o Gymru fel nad oes raid beio Lloegr am yr ymosod ar Fethodistiaid Cymru. Yn wir, dywed *Arvonius* mai clerigwr o Fôn a anogodd Edward Charles i ymosod ar Fethodistiaid Cymru. Meddai ef:(65)

> Yr wyf fi braidd yn sicr mai rhai o'r offeiriadau a osododd Edward Charles ar waith i erlid y Methodistiaid gan mi welais ganddo ef lythyr oddiwrth ryw offeiriedyn erlidiol o swydd Fôn yn cynnwys mwy o enllib na llythyrau Charles ei hun.

Ni allodd *Arvonius* weld pwy oedd awdur y llythyr gan i Charles dorri'r enw ymaith, ond y mae'n amlwg oddiwrth yr hyn a ddywed yn ddiweddarach(66) am "furgyn bach Llan-og" a "mab rhyw hen Shiopwr Gwyn o Gonwy," mai T. E. Owen ydoedd. Barn D. E. Jenkins, ar y llaw arall ydoedd(67) "Charles had for his spiritual advisor one Rev. J. Jones, known as Jones Feddw from Cardiganshire, curate of the Welsh Church."

Pwy bynnag sy'n iawn, gwelir mai offeiriaid o Gymry a anogodd y Cymro hwn o Glocaenog i ymosod ar y Methodistiaid. Y mae'n rhaid bod y straeon hyn yn dew trwy Gymru (68) ac i'w gwrthweithio hwy yr ysgrifennodd Thomas Jones ei *Air yn ei Amser*, y ceir ynddo brofion mor eglur o'r bwlch mawr rhwng agwedd meddwl y Methodistiaid ag eiddo'r radicaliaid y dyfynnwyd peth o'u gwaith uchod.

Bu'n dda gan Thomas Charles ei gael i gyfeirio ato pan atebodd (yn effeithiol iawn) gyhuddiadau W.M.B. ac eraill yn y *Gentleman's Magazine*; gwnaeth hynny ar ddwywaith.(69) Yn ei ysgrif gyntaf, wrth wadu'r cyhuddiad fod y Methodistiaid yn cyfieithu ac yn rhannu gwaith Tom Paine, cyfeiriodd at *Seren Tan Gwmmwl*, gan egluro nad Methodist oedd ei awdur, ond yn hytrach :

---

(64) e.e. *Ibid* 1799 ii, 756.

(65) Arvonius : *Amddiffyniad* (1806), t. 10.

(66) *Ibid*, t. 23.

(67) Gw. *Thomas Charles of Bala* II, Chap. xxxviii, pp. 355-93.

(68) Yn 1795 gorfu i'r Methodistiaid, yn groes i'w dymuniad, gofrestru eu capelau oherwydd yr erlid arnynt gan rai o'r "werin ddi-feddwl" a rhai Ynadon Heddwch.

(69) *Gentleman's Magazine* 1800 i, 46-7 a 333.

